TGAU

3020U20-1C

DYDD MERCHER, 26 MAWRTH 2025 – BORE
WEDNESDAY, 26 MARCH 2025 – MORNING

CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2
WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2

PRAWF C (Diwrnod 2)
TEST C (Day 2)

CYFATHREBU AG ERAILL
COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE

COPI'R YMGEISYDD
CANDIDATE'S COPY

© WJEC CBAC Cyf.

SJJ/DJ*(S25-3020U20-1C-MLP-A3-36)

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dewiswch UN dasg.

Cewch hyd at 10 munud (a'ch amser estynedig) i baratoi'r dasg hon.

Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.

Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

INFORMATION FOR CANDIDATES

Choose ONE task.

You have up to 10 minutes' preparation time (plus your additional time allowance).

You may make notes and discuss with your partner/group during this time.

The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.

Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.

(Trowch y dudalen)
(Turn over)

NAILL AI
TASG 1

FFRINDIAU DA. FFRINDIAU AM OES.

“Mari ydy fy ffrind gorau. Dw i’n gweld Mari bob dydd yn yr ysgol ac ar y penwythnos. Hefyd rydyn ni’n siarad bob nos ar ‘Facetime’. Faswn i ddim yn gallu byw heb fy ffrind – mae hi’n werth y byd!”

JUN



FFRINDIAU DA. FFRINDIAU AM OES.

FFRINDIAU ERS YR YSGOL GYNRADD

“Mae’n well gyda fi dreulio amser yn darllen ar fy mhen fy hun.”

ROCHELLE



FFRINDIAU DA. FFRINDIAU AM OES.

> Beth wyt ti'n wneud gyda dy ffrindiau?

HOFFI GWNEUD GYDA FFRINDIAU?



FFRINDIAU DA. FFRINDIAU AM OES.

WYT TI'N FFRIND DA?

Wyt ti'n gwrando?

Wyt ti'n gwmni da?

Wyt ti'n helpu dy ffrindiau?

Wyt ti'n llawn hwyl?

"Roberto a Gino ydy fy ffrindiau gorau. Dau frawd ydyn nhw a maen nhw'n mynd nôl i'r Eidal i fyw ar ôl TGAU. Bydda i'n eu colli nhw yn fawr iawn. Un peth da – bydda i'n gallu mynd i'r Eidal yn aml ar fy ngwyliau!"

DAI

FFRINDIAU DA. FFRINDIAU AM OES.

YDY HI’N BWYSIG CAEL LLAWER O FFRINDIAU AR-LEIN?



facebook

Instagram

FFRINDIAU DA. FFRINDIAU AM OES.

“Fy mrawd Darren ydy fy ffrind gorau. Mae e’n hŷn na fi ac rydyn ni’n gwneud popeth gyda’n gilydd. Rydyn ni’n chwarae hoci iâ ar y penwythnos, chwarae gemau digidol yn y tŷ ac rydw i’n gallu dweud pob dim wrtho.”

GLYN

Ydych chi’n cweryla gyda ffrindiau?

- **weithiau**
- **drwy’r amser**
- **byth**

???????????????

NEU

TASG 2

MAE'N BWYSIG HELPU ERAILL – OND SUT ?

"Dw i'n helpu fy rhieni bob dydd drwy fynd â fy mrawd bach i'r ysgol."

PETER

"Dw i'n helpu fy ffrind efo gwaith cartref mathemateg ac mae o'n fy helpu i efo gwaith cartref Ffrangeg."

MEL

Jours de la semaine

lundi	vendredi
mardi	samedi
mercredi	dimanche
jeudi	

MAE’N BWYSIG HELPU ERAILL – OND SUT ?

“Sut wnest ti helpu ar gyfer Bac Cymru?”

Rhaid i ni helpu yn y gymuned
fel rhan o Bac Cymru.
Dyma beth rydw i a fy ffrindiau am wneud:

- helpu mewn siop elusen
- darllen gyda phlant yr ysgol gynradd
- garddio i nain a taid Callum
- glanhau sbwriel yn y parc
- helpu yn y clwb dringo

MAE’N BWYSIG HELPU ERAILL – OND SUT ?

BLE WYT TI'N HELPU ERAILL?



MAE'N BWYSIG HELPU ERAILL – OND SUT ?

WYT TI'N CEFNOGI ELUSENNAU? PA RAI?

BANC BWYD
Ydych chi eisiau helpu?
Neuadd y dref
Dydd Sadwrn 10.00–12.00
o'r gloch
Dydd Sul 2.00–3.00 o'r gloch

CYSYLLTWCH Â RAYMOND
STEEL:RAYS5623@LIVE.COM
07931265007

RSPCA

OXFAM

ymchwil canser cymru
cancer research wales

MAE’N BWYSIG HELPU ERAILL – OND SUT ?

“Mae tad-cu yn byw ar ei ben ei hun. Bydda i’n ei helpu e bob wythnos i siopa ar y we. Mae e’n gallu dysgu sgiliau cyfrifiadur hefyd.”

BETHAN

MAE'N BWYSIG HELPU ERAILL – OND SUT ?

FFAIR NADOLIG
BORE SADWRN RHAGFYR 6
NEUADD YR YSGOL
10.00 – 12.00 O'R GLOCH
POB MATH O STONDINAU
Blwyddyn 10 yn codi arian at
Hosbis Dewi Sant

"Rydw i bob amser yn barod i helpu! Beth amdanat ti?"

CERI

Hosbis
Dewi Sant
St David's
Hospice

NEU

TASG 3

MAE'N BWYSIG I BAWB GAEL Y CYFLE I DDYSGU SIARAD CYMRAEG

APIAU IAITH

"Dw i ddim yn hoffi'r term 'dysgwr Cymraeg'. Mae'n well gyda fi ddweud fy mod i'n 'siaradwr newydd'!"

STEFF

DW I'N SIARAD CYMRAEG:

- yn yr ysgol
- gyda tad-cu
- yn y gwaith
- clwb gymnasteg
- clwb yr Urdd
- mewn siopau / caffis

BETH AMDANAT TI?

MAE'N BWYSIG I BAWB GAEL Y CYFLE I DDYSGU SIARAD CYMRAEG

"Dw i ddim yn gallu ymarfer siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth yn yr ysgol. Yn fy marn i mae'n bwysig cael digon o ymarfer er mwyn bod yn rhugl."

PIETR

Wyt ti wedi gweld pobl yn gwisgo bathodynnau fel hyn yn y gwaith?

MAE’N BWYSIG I BAWB GAEL Y CYFLE I DDYSGU SIARAD CYMRAEG

“Symudais i Gymru o Afghanistan yn 2021. Dw i’n siarad Dari gyda fy rhieni. Nawr dw i’n siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl hefyd.”

DAMSA

MAE’N BWYSIG I BAWB GAEL Y CYFLE I DDYSGU SIARAD CYMRAEG

WYT TI’N CYTUNO?

“Mae fy nhad a fy mam yn gallu siarad Saesneg a Sbaeneg ond maen nhw’n dysgu Cymraeg hefyd. Rydyn ni’n defnyddio bob un o’r rhain yn y tŷ.”

PAULO

'Os ydyn nhw'n gallu siarad Cymraeg ym Mhatagonia, dylen ni allu siarad yng Nghymru!'

MAE’N BWYSIG I BAWB GAEL Y CYFLE I DDYSGU SIARAD CYMRAEG

EISIAU YMARFER EICH CYMRAEG?

Dewch i CABAN, swyddfa Menter Iaith

PRYD: Nos Fawrth 5.00 – 7.00

Bore Sadwrn 10.00 – 12.00

Cyfle i sgwrsio, chwarae gemau a chael paned. Digon o help ar gael.

Sgwrsio, sgwrsio a mwy o sgwrsio!

MAE'N BWYSIG I BAWB GAEL Y CYFLE I DDYSGU SIARAD CYMRAEG

"Enillodd fy mrawd Fedal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd. Nawr mae o'n astudio Cymraeg yn y brifysgol ac mae o eisiau bod yn athro Cymraeg."



MAGGI

"Yn fy marn i mae Cymraeg yn iaith anodd i'w dysgu."

JONAS